

CYFARFOD	Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd
DYDDIAD	4ydd o Fehefin 2013
PWNC	Gwe Ddarlledu a Mynych Cyfarfodydd o Bell
PWRPAS	Cyflwyno y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch gofynion gwe ddarlledu, mynychu cyfarfodydd o bell a'r datblygiadau ynghylch grant i Gyngorau Cymuned.
Awduron	Gwenan Parry Pennaeth Gofal Cwmser
	Geraint George Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd

CYFLWYNIAD

1. Adroddwyd i Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar y 19eg o Fawrth fod Mesur Llywodraeth Lleol (Cymru) 2011 yn ceisio hyrwyddo democratiaeth lleol a chynhwysol, a bod y Gweinidog ar y pryd, Carl Sargeant, wedi nodi ei ddymuniad i geisio symud ymlaen ar hyn trwy:

- We-ddarlledu
- Gallu gan aelodau i 'fynychu cyfarfodydd o bell'
- Cyd-weithio gyda chynghorau cymuned a thref i sicrhau mynediad at y wybodaeth allweddol

2. Adroddwyd hefyd fod y Cyngor wedi arwyddo cytundeb i dderbyn grant o £72,000 ar gael i Gyngor Gwynedd, gyda'r rhaniad y gwariant fel a ganlyn:

- £40,000 ar gyfer darlledu cyfarfodydd y Cyngor a chaniatau i aelodau ymuno â chyfarfodydd o "bell"
- £32,000 ar gyfer dyrannu grant o hyd at £500 yr un i gynghorau cymuned y sir i sefydlu eu gwefannau eu hunain.

3. Drwy dderbyn y grant, bydd Cyngor Gwynedd yn ymrwmo i:

Wneud beth	Erbyn pryd	Tystiolaeth
I ddarlledu yr oll / neu rai o gyfarfodydd y Cyngor	31 Mawrth 2014	Presenoldeb darllediadau ar wefan y Cyngor
Darparu cyllid i gynghorau cymuned i'w cefnogi i ddatblygu eu gwefannau	31 Mawrth 2014	Nifer o gynghorau cymuned sydd a gwefan
Trefnu i aelodau ymuno â chyfarfodydd "o bell"	31 Mawrth 2014	Adroddiad ysgrifenedig yn nodi sawl cyfarfod o'r fath gynhaliwyd a llwyddiant yr ymarferiad

DIWEDDARIAD


4. O ran gwe-ddarlledu, mae'r datblygiadau wedi eu cwblhau yn Siambr Dafydd Orwig eisoes, a'r gwaith yn parhau i fynd rhagddo yn Siambr Hywel Dda. Mae'r gwaith sydd wedi ei gyflawni hyd yn hyn ac sydd ar y gweill yn golygu y byddwn mewn sefyllfa lle rydym yn medru cynhyrchu'r deunydd i'w ddarlledu ond bod angen trefnu a chefnogaeth wedyn ar gyfer darlledu'r deunydd ar y we.
5. O ran y gost, adroddwyd yn gychwynnol ar y gwaith ymchwil agoriadol i gostau gwe ddarlledu yn ddwyieithog i'r cyfarfod diwethaf, ac mae'r gwaith ymchwil pellach yn mynd yn ei flaen, ar y cyd ag awdurdodau eraill Gogledd Cymru. Bydd opsiynnau yn eu lle erbyn 15 Gorffennaf sef prynu pecyn meddalwedd i ddarlledu ar batrwm rhai awdurdodau eraill (e.e. Awdurdod Cynllunio Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog) ond mae oblygiadau refeniw i hyn neu, os ydyw yn bosibl datblygu model llawer mwy elfennol na fyddai yn costio cymaint i'w redeg yn flynyddol.
6. Un ystyriaeth y dylai'r pwyllgor fod yn ymwybodol ohonno yw sut y byddwn yn dymuno ymdrin â gofynion cyfieithu. Yn amlwg, ar hyn o bryd, mae cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd lle mae rhywun di-Gymraeg yn bresennol ond, os nad oes person di-Gymraeg yn bresennol, nid oes cyfieithu ar y pryd. Felly, os nad oes rhywun di-Gymraeg yn bresennol yn y cyfarfod ei hun ni fydd cyfieithiad yn cael ei ddarparu a felly ni fydd ffrwd sain i'r di-Gymraeg ar gael i unrhyw un a fyddai'n gwranddo neu wyllo ar-lein. Awgrymir na fyddai'n ddefnydd da o adnoddau i fod yn darparu cyfieithiad ym mhob cyfarfod "rhag ofn" bod rhywun di-Gymraeg yn gwranddo. Unwaith y bydd y drefn yn weithredol, awgrymir ein bod yn adolygu'r defnydd o'r ffrwd di-Gymraeg, i asesu'r galw cyn ystyried a ddylid gwneud unrhyw ddarpariaeth o gwbl ar gyfer hyn.
7. O ran caniatáu i aelodau ymuno â chyfarfodydd o bell, rydym yn dal i ddisgwyl am y canllawiau ar gyfer hyn ond, yn absenoldeb y canllawiau hynny, awgrymir bod y Pwyllgor yn ffurfio barn gychwynnol ar y mater:-
 - a) Cynnig bod y ddarpariaeth ar gael yn yr ystafelloedd fideo cynhadledd yn eiddo'r Cyngor yn Nolgellau a Pwllheli yn unig (er cael sicrwydd am dibynadwyedd y ddarpariaeth)
 - b) Peidio â chynnig y ddarpariaeth ar gyfer cyfarfodydd lle gwneir penderfyniadau gweithredol (Cabinet a Chyngor) ar y cychwyn er osgoi unrhyw gwestiynau cyfansoddiadol pe byddai'r offer yn peidio â gweithio ac aelod felly yn methu ymarfer ei hawl pleidleisio (Gobeithir y bydd y canllawiau o'u derbyn yn datrys y mater hwn)
8. O ran datblygu gwefannau Cyngorau Cymuned, mae gwaith wrthi'n mynd rhagddo ar yr elfen yma er mwyn ceisio hwyluso'r gwaith i'r Cyngorau

Cymuned a sicrhau eu bod yn cael y gwerth gorau am arian. Mae Unllais wedi cyd-weld gyda'r egwyddor o gynnig i'r Cynghorau Cymuned y gallant a) ymgeisio am rhywfaint o arian grant i ddatblygu safle gwe eu hunain neu b) datblygu gwefannau ar y cyd am bris mwy rhesymol. Mae'r drefn ymgeisio ac amserlen fras wedi ei nodi yn Atodiad A.

ARGYMHELLION

9. Argymhellir bod y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yn:-

- a) Cymeradwyo symud ymlaen gyda darpariaeth gwe-ddarlledu o Siambr Dafydd Orwig a Siambr Hywel Dda ac, yn amodol ar faint y costau, i wneud darpariaeth ar gyfer unrhyw ofynion sefydlu a chynnal y tu hwnt i'r arian grant allan o'r gyllideb Costau Democratiaeth
- b) O ran cyfieithu ar y pryd ar gyfer gwe-ddarlledu, derbyn yr awgrym o beidio â gwneud darpariaeth y tu hwnt i drefniadau cyfieithu ar y pryd presennol y Cyngor yn yr ystafelloedd cyfarfod eu hunain
- c) Cymeradwyo symud ymlaen gyda darpariaeth ymuno â chyfarfodydd o bell yn amodol ar y cymalau 7a) a 7b) uchod.
- ch) Parhau i gefnogi'r gwaith o hwyluso datblygu gwefannau i Gynghorau Cymuned.



Llythyru Cyngorau Cymuned –
amlinellu'r gofynion / amodau,
cyflwyno amcan bris o gost datblygu
gwefan unigol
cyflwyno amcan bris o gost datblygu ar y
cyd
amserlen amlinellol –
gofyn iddynt ddewis
(Mehefin)

unigol

Cyngorau i ddatgan
diddordeb a ddewis
gwefan unigol neu ar
y cyd *cyn diwedd
Gorffennaf*

Ar y
cyd

*Dosbarthu ffurflen cais yn cynnwys briff
amlinellol i'r Cyngorau ei ddychwelyd
gyda dyfynbris a mantolen ariannol *cyn
diwedd Medi**

*Dadansoddi ceisiadau (technegol ac
ariannol)
Rhyddhau llythyrau cynnig – Cyngorau
i'w dychwelyd o fewn cyfnod penodol -
*Hydref**

*Adeiladu'r gwefan
Cyngorau i'n hysbysu pan gwaith wedi ei
gwblhau – *cyn dechrau Chwefror 2014**

*Cynnal awdit technegol o'r gwefannau gan
gytuno iddynt (rhyddhau ffurflen hawlio)
neu darparu adborth*

*Derbyn hawliadau Cyngorau (*cyn diwedd
Chwefror*)
Prosesu hawliadau *o fewn 10 diwrnod**

*Cyngorau i dderbyn a dychwelyd
cytundeb yn eu hymrwymo i gydweithio,
talu costau parhaus ac yn enwebu
'champion' o fewn y Cyngor unigol*

*Cadarnhau briff yn derfynol – derbyn pris a
cytundebu gyda darparwr*

*Darparwr i gadarnhau gofynion gyda
champions*

*Adeiladu'r gwefan
Cynnal awdit technegol
Hyfforddi champions
Champions i fewnbynnu gwybodaeth*

Sign off a talu'r darparwr

Adhawlio grant gan Llywodraeth Cymru